**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-804
Ein cyf/Our ref MA/JM/00148/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

16 Mawrth 2020

Annwyl Janet,

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 24 Chwefror yn rhoi diweddariad i mi ynghylch ystyriaeth bresennol eich Pwyllgor o'r ddeiseb gan RAY Ceredigion yn ymwneud â chyllid ar gyfer chwarae.

Nodaf gais y Pwyllgor i'r ohebiaeth a gafwyd hyd yma gan y deisebydd, Chwarae Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru gael eu hystyried yn ffurfiol fel rhan o'm Hadolygiad Chwarae, sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Rwy'n cadarnhau fy mod yn cytuno i'r cais hwn.

Nod yr Adolygiad yw asesu lle ydyn ni erbyn hyn o ran y polisi chwarae a llywio sut ydym yn datblygu ac yn symud ymlaen â'r agenda chwarae yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad yn ystyried y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer chwarae, ac a yw'r weledigaeth honno'n parhau i fod yn berthnasol. Bydd hefyd yn amlinellu’r camau y mae angen eu cymryd i symud ymlaen gyda'r agenda chwarae er mwyn cyflawni’r weledigaeth.

Mae Grŵp Llywio'r Adolygiad Chwarae wedi nodi nifer o feysydd i'w hystyried yn yr Adolygiad, gan gynnwys y canlynol:

- Cofrestru lleoliadau / rheoleiddio lleoliadau / eithriadau;
- Y Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol a gweithio traws bolisïau;
- Y gweithlu;
- Cyfiawnder gofodol a chyfranogiad cymdeithas.

Rwyf hefyd wedi cytuno i edrych eto ar drefniadau cyllido fel rhan o'r adolygiad hwn, ond o ystyried y sefyllfa ariannol ehangach nid oes modd i mi wneud unrhyw ymrwymiad nac addewidion cyn cael canfyddiadau'r adolygiad.

O dan yr amgylchiadau presennol, ac yng ngoleuni’r amrywiol weithgareddau sydd ar y gweill ar hyn o bryd i ddelio â phandemig y Coronafeirws, rwyf wedi gofyn i swyddogion ailystyried amserlenni’r adolygiad. Unwaith y daw’r sefyllfa yn gliriach, mi ysgrifennaf eto gyda mwy o fanylion.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Julie Morgan AC**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services